Papur y Bwrdd

02 Hydref 2014

Teitl y Papur:	Rhaglen Iechyd, Diogelwch a Lles Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfeirnod y Papur:	Papur NRW B B 71.14
Noddwyd y Papur gan: **Ysgrifennwyd y Papur gan:**	Clive Thomas Andrew Johnson

Pwrpas y Papur:	Penderfyniad
Argymhelliad:	Bod y Bwrdd yn nodi'r a chytuno yr wybodaeth ddiweddaraf a'r camau nesaf
Angen Penderfyniad:	Cytuno'r camau nesaf

Effaith	Effaith ar y Gymuned: Perfformiad uchel wrth reoli iechyd, diogelwch a lles ein staff, contractwyr, cwsmeriaid a'r gymuned ehangach yn hanfodol i'r unigolion dan sylw ac yn gadarnhaol o ran ein henw da a rheoli risg

Pwnc

1. Fel sefydliad rydym yn cynnal llawer o weithgareddau risg uchel sydd angen eu gwneud yn ddiogel. Er enghraifft, rydym yn cynaeafu coedwigoedd, yn gwneud gwaith rheolaidd mewn dŵr neu'n agos at ddŵr ac mae llawer o'n gweithwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain neu o bell, yn defnyddio llifau cadwyn ac yn rheoli cyfleusterau peryglus. Dim ond rhai o'r gweithgareddau risg uchel mae ein staff yn eu gwneud yn rheolaidd yw'r rhain. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd ar ein tir a'n hasedau, er enghraifft ar yr ystâd goedwigoedd, cronfeydd natur a'n hasedau sydd mewn perygl o lifogydd. Yn ogystal, nid yw parhau i ddefnyddio systemau iechyd, diogelwch a lles gwahanol y cyrff blaenorol yn ddull effeithiol ac effeithlon i Cyfoeth Naturiol Cymru reoli a monitro ein hymrwymiadau ym maes iechyd, diogelwch a lles.

2. Roedd ein hadroddiad blynyddol ar iechyd, diogelwch a lles ar gyfer 2013/14 yn nodi'r camau nesaf a gwaith ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen strategaeth glir hirdymor ar gyfer iechyd, diogelwch a lles i gyflawni'r camau gweithredu hyn a gwaith arall a nodwyd. Mae angen arweiniad gweladwy, cryf a pharhaus ar lefel y Bwrdd, y Tîm Gweithredol, y Tîm Arwain a chan bob rheolwr llinell. Dylai'r ymrwymiad i iechyd, diogelwch a lles fod yn ganolog i'n holl waith, nid yn flaenoriaeth yn unig.

Cefndir a'r wybodaeth ddiweddaraf

3. Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-2017 yn nodi ein pwrpas o sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac i'r dyfodol. Mae ein pobl a'r ffordd maen nhw'n gweithio yn hanfodol i lwyddiant y cynllun corfforaethol ac rydym am lwyddo mewn ffordd ddiogel ac iach.

4. Dros y tair blynedd nesaf mae angen i ni atgyfnerthu a gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau drwy fod yn atebol am iechyd a diogelwch a thrwy gael arweinwyr, rheolwyr a staff sy'n ymlafnio i greu gweithleoedd mwy diogel.

5. Yn ein hadroddiad blynyddol ar iechyd, diogelwch a lles ar gyfer 2013/14, nodwyd y camau nesaf a gwaith i'r dyfodol. Paratowyd cynllun gwella hefyd.

Blaenoriaethau Allweddol:

- Gwella arweiniad gweladwy gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol
- Cael arweinwyr i fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni camau gweithredu a deilliannau dysgu o adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol a sicrhau bod y rhai sy'n rhan o'r adolygiad yn cymryd rhan weithredol
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles 3 blynedd
- Cysoni polisïau a gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch a Lles
- Pwyllgor, fforymau a grwpiau iechyd, diogelwch a lles i ymgysylltu â staff i ddatblygu a hyrwyddo amgylchedd a diwylliant gweithio diogel.

6. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu datblygu drwy drefniadau llywodraethu cyfredol yn cynnwys:

- Bydd Clive Thomas fel Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro ODPM gyda chyfrifoldeb dros Iechyd, Diogelwch a Lles yn cadeirio'r prif bwyllgor ac yn canolbwyntio ar gyflwyno Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles, trefniadau llywodraethu ffurfiol a chynllun gweithredu tair blynedd ar gyfer gwella.

- Bydd Andrew Johnson (ODPM) a Peter Garson (Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau) yn arwain y gwaith o ddatblygu'r strategaeth a bydd Andrew hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu ategol; ac arwain y tîm arbenigol o gynghorwyr iechyd a diogelwch.

7. Mae'r trefniadau llywodraethu hyn ar gyfer y strategaeth a'r cynllun gwella'n ychwanegol at y prif gyfrifoldeb sydd gan reolwyr llinell; o'r rheng flaen i'r Tîm Gweithredol. Mae pob un yn gyfrifol am arwain a rheoli iechyd, diogelwch a lles, am sicrhau bod staff yn gweithio mewn diwylliant diogel, ac yn gymwys i gyflawni eu swydd; a bod ganddynt yr adnoddau i asesu a rheoli risgiau a'r hyder i fynegi pryderon. I gefnogi'r atebolrwydd hwn, mae yna strwythur llywodraethu i arwain gwelliant ac i ddarparu trosolwg o berfformiad.

Camau nesaf – Mabwysiadu Dull Rhaglen

8. Rydym yn bwriadu mabwysiadu dull rhaglen cliriach i arwain y gwelliannau a fydd yn galluogi CNC i gyflawni ei uchelgais o ran iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr. Mae'r dull yn cynnwys pedair ffrwd waith allweddol:

- Cael staff i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu **strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles**. Bydd y strategaeth yn rhoi cyfeiriad i CNC ddatblygu ei berfformiad iechyd, diogelwch a lles. Mae ein pobl a sut maent yn gweithio yn hanfodol i lwyddiant ein cynllun corfforaethol ac rydym am lwyddo mewn ffordd ddiogel ac iach. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau drwy fod yn atebol am iechyd a diogelwch a thrwy gael arweinwyr, rheolwyr a staff sy'n ymlafnio i greu gweithloedd mwy diogel. Rydym am gael ein cydnabod yn fewnol ac allanol fel arweinwyr sy'n rheoli iechyd, diogelwch a lles. Bydd y strategaeth yn ystyried safbwyntiau ein staff drwy fforymau iechyd, diogelwch a lles rhanbarthol a Phwyllgor Cenedlaethol Iechyd a Diogelwch.

- Adolygu a diwygio ein **trefniadau llywodraethu**. Er bod gan CNC drefniadau llywodraethu ar gyfer iechyd, diogelwch a lles, mae angen ail-gadarnhau ac egluro nifer o bwyntiau allweddol yn cynnwys rôl ODPM, yn cynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol. Bydd yn bwysig cynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyfer ODPM yn y drafodaeth hon o fis Tachwedd 2014 ymlaen. Pwrpas y strwythur llywodraethu yw sicrhau bod iechyd a diogelwch yn gwella yn CNC drwy roi'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch ar waith yn effeithiol. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu â staff ar bob lefel yn y sefydliad i feithrin diwylliant iechyd a diogelwch cryf a datblygu a rhoi'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch ar waith. Cynigir y dylai CNC ddilyn cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar arferion llywodraethu gorau ym maes iechyd a diogelwch. Mae'r cyngor hwn yn helpu i gysylltu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch bob dydd y rheolwyr a'r angen i sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â staff a rhanddeiliaid CNC ar faterion iechyd a diogelwch. Bydd rheolwyr yn cael cefnogaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch gan ein timau cynghori Iechyd a Diogelwch a Dysgu a Datblygu sy'n rhan o ODPM. Waeth beth fydd yn cael ei egluro ymhellach mewn trefniadau llywodraethu, rheolwyr lleol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am reoli, nid ODPM.

- **Datblygu ein Diwylliant Iechyd, Diogelwch a Lles**. Bydd hyn yn allweddol i gyflawni ein strategaeth. Ein nod yw atgyfnerthu a gwella'r ffordd rydym yn gwneud pethau drwy fod yn atebol am iechyd a diogelwch a chael arweinwyr, rheolwyr a staff sy'n ymlafnio i greu gweithleoedd mwy diogel. Ein nod yw bod yn sefydliad sy'n rhoi diogelwch yn ganolog i bopeth a wnawn, gan ddarparu tystiolaeth, adnoddau a'r prosesau i bobl i'w helpu i wneud y penderfyniadau cywir drostynt eu hunain ac eraill. Yn y bôn, system sy'n cael ei 'arwain gan ymddygiad'. Dylem feddwl yn flaengar gan edrych ar ddangosyddion arwain a dilyn i reoli perfformiad. Bydd datblygu diwylliant diogelwch CNC cryf felly yn thema yn y Strategaeth a bydd y diwylliant presennol yn cael ei asesu gan ddefnyddio methodoleg fel adnodd Hinsawdd Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

- Bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno a'i monitro drwy **gynllun gweithredu** clir. Bydd y cynllun yn eang gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau hyfforddi a systemau i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol ac i lywio diwylliant iechyd a diogelwch CNC gydag arweiniad ac ymddygiad priodol.

9. Mae'n bwysig ein bod ni'n caniatáu digon o amser i drafod y cynigion hyn gyda staff drwy'r adnodd profi hinsawdd a thrwy bwyllgorau Iechyd, Diogelwch a Lles. Mae yna berthynas uniongyrchol rhwng perfformiad iechyd, diogelwch a lles a chyfraniad gweithwyr ym maes iechyd a diogelwch. Cynigir y dylid cyflwyno rhaglen o bedair ffrwd waith: Strategaeth, Llywodraethu, Diwylliant a Chynllun Gweithredu dros y 6 mis nesaf gan lansio'r strategaeth yn ffurfiol erbyn 1 Ebrill 2015 fan bellaf ond gan gymryd llawer o gamau cyn hynny hefyd.

Risgiau

10. Bydd oedi estynedig i gyflwyno'r rhaglen arfaethedig yn effeithio ar ein gallu i ddatblygu'r diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac yn gwella ein safonau iechyd, diogelwch a lles ac yn creu'r perygl na fyddwn yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Goblygiadau Ariannol

11. Mae goblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r cynnig hwn. Fodd bynnag, bydd y newid ffocws yn ein galluogi i ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac yn gwella ein safonau iechyd, diogelwch a lles ac yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Hyd nes bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu'n cael eu datblygu nid yw'n bosibl mesur y goblygiadau ariannol ond y gred yw mai gweithredu yn unol â'r safonau diogelwch uchaf fydd y strategaeth fwyaf cost-effeithiol.

Cyfathrebu

12. Bydd angen rhaglen o waith ymgysylltu rhagweithiol i gyflwyno'r strategaeth a'r cynllun gweithredu. Efallai y bydd angen sefydlu grŵp ar wahân i oruchwylio cyfathrebu neu ddefnyddio trefniadau cyfredol y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol. Bydd angen datblygu cynllun cyfathrebu ffurfiol wrth ddarparu'r rhaglen a'r cynllun gweithredu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

13. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y papur hwn ond bydd yn berthnasol i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu.